# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD WASPI

## PAM RYDYM YN DEFNYDDIO DATA PERSONOL

Cefnogir Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i cynhelir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), fel yr 'un' fframwaith rhannu gwybodaeth ar gyfer Cymru. Diben y fframwaith yw galluogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i rannu gwybodaeth bersonol berthnasol mewn ffordd gyfreithlon a diogel, a thrwy hynny gefnogi rheoli risg. Yn benodol, mae'n ymwneud â'r sefydliadau hynny sy'n cadw gwybodaeth am unigolion ac a allai ei hystyried yn briodol neu'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth honno gydag eraill. Am ragor o wybodaeth am WASPI, gweler: [https://www.waspi.llyw.cymru/](https://www.waspi.llyw.cymru/)

Mae IGDC yn Awdurdod Iechyd Arbennig, yn rhan o deulu GIG Cymru ac yn bartner dibynadwy. Mae'n bwrw ymlaen â'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau sydd eu hangen i drawsnewid darpariaeth iechyd a gofal. Fel cynhaliwr Gwasanaeth WASPI, mae'r wybodaeth a gedwir gan WASPI yn cael ei chynnal ar seilwaith IGDC. Am ragor o wybodaeth am IGDC, gweler: [https://igdc.gig.cymru/](https://igdc.gig.cymru/)

Fel rhan o WASPI, efallai y byddwn yn defnyddio data personol at y dibenion canlynol:

- **Cofrestru ar gyfer y Cytundeb:** Lle mae unigolion wedi cofrestru ar gyfer y Cytundeb fel y swyddog dynodedig ar gyfer eu sefydliad, byddwn yn cadw cofnod o'r manylion a ddarparwyd ar eu cofrestru a gellir cysylltu â nhw mewn perthynas â gwasanaethau WASPI.
- **Datblygu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth (gan gynnwys Grwpiau Sicrwydd Ansawdd Rhanbarthol):** Lle mae unigolion wedi creu Cytundeb Rhannu Gwybodaeth gan ddefnyddio unrhyw un o dempledi brand WASPI ac wedi ymgysylltu â thîm WASPI (gan gynnwys defnyddio templed Protocol Rhannu Gwybodaeth WASPI drwy'r Grwpiau Sicrwydd Ansawdd Rhanbarthol), bydd WASPI yn dal gwybodaeth a ddarperir fel rhan o'r cytundeb ac unrhyw wybodaeth atodol mewn perthynas â'r gwasanaeth, y prosiect neu'r fenter y mae'r cytundeb yn ei gefnogi.
- **Cylchlythyr:** Lle mae unigolion wedi dewis derbyn cylchlythyr WASPI, cysylltir â nhw i dderbyn cylchlythyr yn ymwneud â gwasanaethau WASPI. Gall derbynwyr cylchlythyr WASPI gysylltu â gwasanaeth WASPI unrhyw bryd i optio allan o dderbyn y cylchlythyr.
- **Porth Rhannu Gwybodaeth (ISG):** Mae'r ISG wedi'i ddatblygu gan is-grŵp o sefydliadau yng Ngrŵp Llywodraethu Gwybodaeth Swydd Gaerhirfryn a Cumbria (Lanashire & Cumbria) er mwyn gwella a moderneiddio gweinyddiaeth ac asesiad risg rhannu gwybodaeth yn y sector cyhoeddus. Fe'i cynlluniwyd gan arbenigwyr Llywodraethu Gwybodaeth, ar gyfer arbenigwyr Llywodraethu Gwybodaeth, i gefnogi eu hadroddiadau Llywodraethu Gwybodaeth ar lif data a rhannu gwybodaeth. Mae'r swyddogaeth rhannu data o fewn y system yn cynnwys fersiynau wedi'u digideiddio o dempledi cytundeb rhannu gwybodaeth WASPI. Dim ond at ddiben cofrestru ar y system y bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei defnyddio.
- **Digwyddiadau a Hyfforddiant:** Gall Gwasanaeth WASPI ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir mewn perthynas â digwyddiadau a hyfforddiant y mae WASPI yn eu cynnal, yn cymryd rhan ynddynt neu'n mynychu at ddiben: cynllunio a threfnu'r digwyddiad

perthnasol yn dilyn cofrestru; cynllunio yn y dyfodol (megis lle darperir adborth); neu at ddibenion hyrwyddo (megis lluniau a fideos – yn amodol ar yr hysbysiadau perthnasol sy'n hysbysu unigolion am ffotograffiaeth a ffilmio ac yn darparu'r opsiwn i optio allan o hyn).
- **Cysylltu â'r Tîm:** Pan fydd unigolion yn cysylltu â'r gwasanaeth gydag ymholiadau, cwestiynau neu gyngor, bydd WASPI yn cadw'r wybodaeth a ddarparwyd sy'n berthnasol i'r ohebiaeth.

Mae mynediad i'r data hwn wedi'i reoli. Yn gyffredinol, dim ond trwy wasanaeth WASPI y bydd mynediad a dim ond lle bo angen. Dim ond pan fo angen i rywun wneud eu gwaith yr ydym yn caniatáu mynediad at ddata personol. Mae IGDC a WASPI yn cymryd hyn o ddifrif ac mae'n ofynnol i bob un o'n gweithwyr gael eu hyfforddi ar y defnydd priodol o ddata personol. Gall mynediad amhriodol at ddata personol arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys diswyddo.

I gael rhagor o wybodaeth am sefydlu a swyddogaethau IGDC, gweler: Iechyd a Gofal Digidol Cymru: sefydlu a swyddogaethau | LLYW.CYMRU

## MATHAU O DDATA PERSONOL

Er mwyn cynnal fframwaith WASPI, rydym yn casglu, storio a defnyddio data personol cyfyngedig ('prosesu').

Nid ydym yn casglu nac yn prosesu'r holl ddata personol hwn am bawb drwy'r amser. Rydym ond yn casglu ac yn prosesu'r data personol sy'n angenrheidiol ar gyfer y dasg benodol yr ydym yn ei chyflawni. Lle bo'n bosibl, bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei rhoi dan ffugenw (gan ddisodli dynodwyr â chodau neu 'allweddi') neu ei anonymeiddio (sy'n golygu na ellir adnabod unigolion); er enghraifft, pan fydd adroddiadau'n cael eu cynhyrchu.

Mae categorïau arbennig o ddata personol y byddwn o bosibl yn eu prosesu yn cynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth ddemograffig sylfaenol, fel enw a rôl swydd,
- Gwybodaeth gyswllt fel cyfeiriad e-bost a rhif ffôn,
- Gwybodaeth a ddarparwch sy'n berthnasol i ddiwallu eich anghenion mewn digwyddiadau neu hyfforddiant a gynhelir gennym, megis gofynion deietegol neu hygyrchedd,
- Delweddau neu ffotograffau ohonoch chi mewn digwyddiadau neu hyfforddiant rydyn ni'n eu cynnal, yn cymryd rhan ynddynt neu'n mynychu.

Noder nad yw WASPI yn storio unrhyw wybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ymwneud â'r cytundebau rhannu gwybodaeth a gynhyrchwyd, lle nad yw IGDC yn bartner i'r cytundeb.

## SUT RYDYM YN DEFNYDDIO DATA PERSONOL

Mae angen data personol ar gyfer cynnal fframwaith WASPI fel y nodir uchod.

## SUT RYDYM YN CAEL GAFAEL AR EICH DATA PERSONOL

Fel arfer, chi fydd yn darparu'r data personol a gedwir. Ar adegau, gall hyn gael ei ddarparu gan berson arall, er enghraifft lle rydych chi wedi'ch rhestru fel sefydliad partner neu lle ymgynghorwyd â chi mewn cytundeb rhannu gwybodaeth.

## Y SAIL GYFREITHLON DROS YR HYN YR YDYM YN EI WNEUD

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddweud wrthych y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yn y ffordd yr ydym yn gwneud. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.

Rydym yn dibynnu ar y darpariaethau cyfreithiol canlynol:

- Tasg gyhoeddus: mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd.
- Buddiannau dilys.
- Lle credir ei bod yn briodol, efallai y byddwn yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio data personol amdanoch.

## GYDA PHWY Y RHENNIR DATA PERSONOL

Dim ond gyda sefydliadau eraill lle mae'n angenrheidiol ac yn gyfreithlon i wneud hynny y rhennir data personol.

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda'r sefydliadau canlynol yn y sefyllfaoedd penodol hyn:

**ISG:** I gynnal y system a darparu mynediad.

**Grwpiau Sicrwydd Ansawdd Rhanbarthol:** Lle mae Protocol Rhannu Gwybodaeth wedi'i gyflwyno.

Byddwn yn rhannu data personol os yw'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith – er enghraifft, drwy orchymyn llys neu i atal twyll neu droseddau eraill.

Efallai y byddwn yn defnyddio gwasanaethau 'cwmwl', sy'n golygu y gellir storio data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Os bydd hyn yn digwydd, mae'n ofynnol i ni gael mesurau diogelu priodol ar waith gyda'r nod o ddiogelu data yn unol â chyfreithiau perthnasol. Defnyddiwch y manylion cyswllt isod os ydych am gael rhagor o wybodaeth am y mesurau diogelu sydd ar waith ar hyn o bryd.

Mae unrhyw un sy'n derbyn data personol amdanoch o dan ddyletswydd gyfreithiol i'w gadw'n gyfrinachol. Dim ond yr wybodaeth angenrheidiol y byddwn yn gofyn amdani, yn ei defnyddio ac yn ei rhannu. Ni fyddwn byth yn gwerthu data personol amdanoch, ac ni fyddwn yn ei rannu heb yr awdurdod cyfreithiol priodol nac, os yw'n briodol i'r amgylchiadau, eich caniatâd gwybodus.

## AM BA MOR HIR Y BYDDWN YN CADW'CH DATA PERSONOL?

Rydym yn cadw data personol cyhyd ag y bydd angen i ni er mwyn cyflawni'r diben(ion) y cafodd ei gasglu ar ei gyfer a chydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol.

## DIOGELWCH A STORIO DATA

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydnabod bod eich data personol yn werthfawr iawn, ac rydym yn cymryd diogelwch data o ddifrif. Rydym wedi sefydlu systemau a phrosesau i atal mynediad heb awdurdod neu ddatgelu data drwy ddefnyddio:

- Archwilio - rydym yn cadw cofnodion o'r rhai sy'n cyrchu data personol;
- Rheolaethau cyfrineiriau - rhoddir enw defnyddiwr a chyfrinair i aelodau staff i gael mynediad at ddata personol;
- Rheolaethau mynediad – dim ond y staff hynny y mae'n ofynnol iddynt gael mynediad at y data sydd â mynediad at y data;
- Rheoli cofnodion electronig - cedwir yr holl ddata yn gyfrinachol ac mewn lleoliadau diogel;
- Rheolaethau cyfrifiadurol - mae gennym reolaethau diogelwch cymhleth i sicrhau na all ein cyfrifiaduron gael eu defnyddio gan y rhai nad ydynt wedi'u hawdurdodi i wneud hynny – fel hacwyr;
- Storio – Mae gennym ddatrysiadau storio soffistigedig gyda chefnogaeth ar gyfer gwydnwch; ac
- Amgryptio - mae dyfeisiau cyfrifiadurol sy'n dal data personol fel gliniaduron yn cael eu hamgryptio rhag ofn i'r ddyfais sy'n storio'r data gael ei cholli neu ei dwyn.

Rhaid i holl staff IGDC gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn gwneud staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrinachedd a diogelwch data personol ac yn ei gwneud yn glir eu bod yn bersonol gyfrifol am ddiogelwch data o'r fath. Rhaid cwblhau'r hyfforddiant hwn bob dwy flynedd.

Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw drydydd parti yr ydym yn delio ag ef yn cadw'r holl ddata personol y maent yn ei brosesu ar ein rhan yn ddiogel.

## EICH HAWLIAU

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu hawliau unigol amrywiol ar gyfer testunau data, gan gynnwys:

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gael mynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Hawliau yn ymwneud â phroffilio a phenderfyniadau a wneir yn awtomatig

Nid yw'r holl hawliau hyn yn absoliwt, sy'n golygu bod yn rhaid i ni gydbwyso eich dymuniadau yn aml yn erbyn gofynion eraill. Y rheswm am hyn yw bod rhesymau cyfreithiol eraill bod angen cadw cofnodion o'r fath. Bydd pob cais i arfer un o'r hawliau uchod yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod. Mae rhai hawliau'n annhebygol o fod yn gymwys yng nghyd-destun y gwaith a wnawn; er enghraifft, yr hawl i ddileu a'r hawl i gludadwyedd.

I gael esboniad o'ch holl hawliau, gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y gallwch eu gweld yma.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynglŷn â phrosesu data personol amdanoch, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

## NEWIDIADAU I'R POLISI HWN

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn gywir ac yn gyfredol. Bydd unrhyw newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i chi a'r wybodaeth a gedwir amdanoch ar unwaith.

## CYSYLLTU Â NI

Cysylltwch â Swyddog Diogelu Data IGDC i gael rhagor o wybodaeth am y polisi hwn, gan gynnwys sut i arfer eich hawliau:

Swyddog Diogelu Data
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD

DHCW.InformationGovernance@wales.nhs.uk

## HAWL I GWYNO

Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu ein gweithgareddau prosesu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a gallwch wneud hyn drwy'r wefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth.

https://ico.org.uk/global/contact-us/

## DIFFINIADAU

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Swyddog Diogelu Data | Mae'n ofynnol i rai categorïau o sefydliadau, gan gynnwys unrhyw gorff neu awdurdod cyhoeddus (ac eithrio llysoedd yn |

| | |
|---|---|
| | eu swyddogaeth farnwrol) benodi Swyddog Diogelu Data â chymwysterau addas. Mae tasgau'r Swyddog Diogelu Data wedi'u nodi yn Erthygl 39 o GDPR y DU. |
| Testun data | Unigolyn adnabyddedig neu adnabyddadwy yw 'testun data'. |
| Deddfwriaeth Diogelu Data | GDPR y DU yw fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE. Mae'n cynnwys y diffiniadau, yr amodau, yr egwyddorion a'r hawliau sy'n berthnasol i brosesu data personol yn y DU.<br><br>Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn creu darpariaethau penodol, megis eithriadau y mae GDPR y DU yn eu caniatáu, ac mae'n ymgorffori darpariaethau Cyfarwyddeb Diogelu Data'r UE 2016/680 - y Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith. |
| Data personol | Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol ('testun data') adnabyddedig neu adnabyddadwy; person naturiol adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig drwy gyfeirio at adnabyddwyr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, adnabyddwr ar-lein neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth ffisegol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw; |
| Prosesu | Unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a wneir i ddata personol neu i setiau o ddata personol, p'un ai trwy ddulliau awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu fel arall sicrhau eu bod ar gael, alinio neu gyfuno, cyfyngu, dileu neu ddinistrio |
| Proffilio | Unrhyw fath o brosesu data personol yn awtomataidd sy'n cynnwys defnyddio data personol i werthuso rhai agweddau personol sy'n ymwneud â pherson naturiol, yn enwedig i ddadansoddi neu ragweld agweddau sy'n ymwneud â pherfformiad y person naturiol hwnnw yn y gwaith, sefyllfa economaidd, iechyd, dewisiadau personol, buddiannau, dibynadwyedd, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau. |
| Data dan ffugenw / Rhoi dan ffugenw | Prosesu data personol yn y fath fodd fel na ellir priodoli'r data personol mwyach i destun data penodol heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, ar yr amod bod gwybodaeth ychwanegol o'r fath yn cael ei chadw ar wahân ac yn destun mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau nad yw'r data personol yn cael ei briodoli i berson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy |

Diweddarwyd ddiwethaf: Medi 2025